# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG
**Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.**
**Teleffon: Botwnnog 730357**


6ed Medi, 2023.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor **Nos Lun nesaf, 11eg Medi, 2023,** am 7.30 y.h. yn Neuadd Goffa, Sarn.

**1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**2. YMDDIHEURIADAU**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
I dderbyn gwybodaeth.

**4. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 10fed GORFFENNAF, 2023**
Copi'n amgaeëdig. "A"
I drafod materion yn codi o'r cofnodion.

**5. CEISIADAU CYNLLUNIO**
(a) Noder fod y ceisiadau isod wedi eu hystyried yn unol a 'hawliau mis Awst' ac fod ymateb 'cefnogi' wedi ei anfon i'r Adran Gynllunio, Cyngor Gwynedd:
Cais C23/0554/32/Ll – codi adeilad amaethyddol i gadw gwellt a pheiriannau – Ty Mawr Capel, Sarn.
Cais C23/0469/32/LL – cais llawn i godi adeilad i'w ddefnyddio fel stablau ceffylau ynghyd a chreu llain galed – Pen y Gongl, Llangwnnadl
(b) I ytyried y ceisiadau a ganlyn:
Cais 23/0608/32/RC – tysysgrif defnydd cyfreithlon ar gyfer defnydd preswyl parhaol o garafan – Bryn Teg Bach, Bryncroes
(Noder er fod y cyfnod cyflwyno sylwadau wedi pasio erbyn dyddiad y Cyngor cafwyd cadarnhad gan yr Adran y byddai anfon sylwadau yn dilyn y cyfarfod hwn yn dderbyniol).
Cais C23/0667/32/DT – cais i adeiladu ances nain a thaid ar iard y fferm – Mynachdy, Sarn Mellteyrn.
Cais C23/0687/32/LL – estyniad ochr er mwyn creu modurdy gyda ffenestr gromen yng ngofod y tô – Bwthyn, Ty Mawr, Bryncroes
(c) Llythyr gan Owen Devenport Cyf ynglyn a datblygiad arfaethedig ar dir yn Cae Capel, Bownnog. "B"

**6. MYNWENT LLANDEGWNNING**
(a) llythyr Mr. Geraint Hughes, Bronllwyd Bach, Botwnnog ar ran Cyfeillion Eglwys Llandegwnning. "C"
(b) Cyflwr y fynwent – a oes angen tacluso'r llwybr, o gwmpas y giat a.y.
(c) Yr angen i ail wneud cynllun o'r fynwent.

7. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

8. **AWDURDOD I DALU**
**(a) Talwyd** y bil a ganlyn yn unol â hawliau mis Awst:

| | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd – archwilio'r cyfrifon | £205.00 + TAW (200796) |

**(b**) I awdurdodi'r taliadau a ganlyn ac unrhyw daliad ddaw yn ddyledus cyn noson y Cyngor.

| | |
|---|---|
| Y Clarc | £420.00 (200797) |
| HMRC | £105.00 (200798) |
| Gwenda Roberts (ad-daliad o gostau postio i Archwiliio Cymru) | £ 11.15 (200799) |

9. **PLANNU COED CYNHENID YN YR AHNE**
E-bost dderbyniwyd oddi wrth Bleddyn Jones, Swyddog AHNE Llyn. "CH"

10. **HOLIADUR CYMUNEDAU GWYNEDD**
I ymateb i holiadur dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd. "D"

11. **LLOCHES BWS A.Y.**
I ystyried pa gamrau sydd angen eu cymryd nesaf ynglyn a chyflwyno cais am grant.

12. **SEFYLLFA ARIANNOL**
I adrodd ar y sefyllfa ariannol. "DD"

Yn gywir,

Gwenda Roberts

Clarc

## *AELODAETH Y CYNGOR*
## Y CYNGHORWYR

| | | |
|---|---|---|
| Carys H. Evans | Elin Hughes | Gwenan Griffiths |
| Dylan Parry Jones | Glyn Roberts | Michael Strain |
| Efan Thomas | Carys E. Williams | Glenys Williams |
| Iwan J. Williams | Siôn Williams | |